

GUIDE
DOGS



Cymru

Modiwl 1

Beth mae ci tywys yn ei wneud?



Cynllun gwers

Dolenni Cwricwlwm

Cymraeg, Saesneg, Dinasyddiaeth, Y Byd o'n Cwmpas, Daearyddiaeth

Nod:

Esbonio sut mae ci tywys yn ymateb i, ac yn ymddwyn mewn, rhai sefyllfaoedd bob dydd.

Amcanion:

- Asesu faint mae plant yn ei wybod ynghylch beth mae ci tywys yn ei wneud.
- Defnyddio gweithgareddau a fideos i ddeall beth mae ci tywys yn ei wneud a chael peth syniad o gymhlethdod yr hyfforddiant sydd ynghlwm wrth hyn a pham ei fod mor bwysig.

Deilliannau Dysgu:

Bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu disgrifio ychydig o bethau mae ci tywys yn cael ei hyfforddi i'w wneud. Bydd rhai plant yn gallu dilyn map a chyfeirio ci tywys yn llwyddiannus ar hyd llwybr rhwng 2 bwynt. Bydd rhai yn gallu dangos empathi drwy ddychmygu bore neu bnawn arferol ym mywyd ci tywys.

Nodiadau Athro/Arweinydd:

Ceir amrywiol fideos ar ein sianel You Tube Channel Guide Dogs UK, mae'r ddolen i'r fideo 'Alma, Walk My Way' ar dudalen adnoddau dysgu gwefan Cŵn Tywys.

Adnoddau:

Bydd angen i chi ddefnyddio'r rhynggrwyd ar gyfer y Fideos You Tube a sgrin â sain.

Taflen adnoddau – Beth mae ci tywys yn ei wneud?

Taflen adnoddau – Cynllun tref

Geirfa Allweddol:

Ci tywys, croesi cwrw, rhwystrau, cornel, dewr, hyderus

Cyflwyniad

Noder Mae trosolwg cyflym yn dilyn sy'n esbonio beth mae ci tywys yn ei wneud. Cadwch y wybodaeth hon mewn cof wrth wyllo'r fideo gyda'ch dosbarth.

Beth mae ci tywys yn ei wneud?

Mae ci tywys yn galluogi ei berchennog dall neu rannol-ddall i fynd o gwmpas yn ddiogel ac yn annibynnol. Mae e'n arwain ei berchennog mewn llinell syth, oni bai y dywedir fel arall wrtho, gan osgoi rhwystrau – gan gynnwys y rheini sydd yr un uchder â phen y perchennog. Bydd yn stopio wrth gwrb y ffordd ac wrth ymyl stepiau a bydd yn dod o hyd i ddrysau, manau croesi a lleoedd yr ymwelir â nhw'n rheolaidd. Bydd yn arwain ei berchennog dros y ffordd, ond y perchennog sy'n penderfynu ble a phryd i groesi'n ddiogel.

Gwylwch y fideo 'Alma, Walk my way' gan ddefnyddio'r ddolen i You Tube sydd ar dudalennau adnoddau dysgu Cŵn Tywys. Mae'r fideo hwn yn dangos taith Nicky ac Alma, partneriaeth ci tywys. Mae'n para ychydig dros 5 munud a cheir rhai enghreifftiau hyfryd o'r ci yn stopio wrth stepiau, ac yn aros wrth groesfannau. Gwylwch y fideo gyda'ch gilydd. Ar ôl gwyllo'r fideo, defnyddiwch y cwestiynau ysgogi canlynol i wneud rhestr o'r gwahanol ffyrdd wnaeth Alma helpu Nicky:

- Beth ma Alma'n ei wneud pan ddaw hi at gornel?
- Beth mae hi'n ei wneud pan ddaw hi at gwrb?
- Beth mae hi'n ei wneud pan ddaw hi at stepiau/ grisiau?
- Beth ma Alma'n ei wneud pan fydd pobl o gwmpas?
- Wnaeth unrhyw un sylwi ar unrhyw rwystrau? Mae'n bosibl eich bod wedi sylwi ar hysbysfyrddau y tu allan i siopau, beiciau wedi eu gosod yn erbyn ffenest siop ac yn y blaen.
- Pa bethau oedd yn rhaid i Alma'r ci tywys eu hosgoi?
- Ble mae Alma a Nicky yn gorffen eu taith?

Gweithgaredd Taflen Waith

Beth mae ci tywys yn ei wneud? – taflen adnoddau

Gweithgaredd Pâr:

Rhowch daflen adnoddau i bob pâr. Mae cyfres o gwestiynau ar y daflen am gŵn tywys; esboniwch fod cŵn tywys yn cael eu hyfforddi'n ofalus iawn. Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu i ddysgu plant am rôl y ci tywys a dangos gweithgareddau cyffredin sydd yn rhaid iddyn nhw fedru eu gwneud. Darllenwch y datganiadau ynghyd a thrafod pa opsiwn yw'r un cywir. Gofynnwch i'r plant a allant roi rhesymau dros eu hatebion gan barhau nes i chi orffen.

Syniad am Weithgaredd 1

Gofynnwch i'r plant ddychmygu mai nhw yw Alma'r ci tywys.

Meddylwch am ble mae Alma'n mynd gyda Nicky. All y plant ddisgrifio'u taith neu ddim ond rhan ohoni'n syml. Bydd plant mwy galluog yn ysgrifennu paragraffau a dylent gael eu hannog i ddefnyddio iaith ddisgrifiadol.

Syniad am Weithgaredd 2

Cynllun tref

Gan ddibynnu ar allu, gall plant weithio ar Daflen adnoddau – cynllun tref yn annibynnol neu â phartner (mae'r daflen yn dangos cynllun syml o dref fach). Ceir llun o gi tywys a'i berchennog ar y brig yn y gornel chwith, yn dechrau o'r cartref. Dylai plant benderfynu yn gyntaf a ydyn nhw am fynd i'r ysgol, caffi, llyfrgell neu'r siop. Dylai'r plant ddefnyddio pensiliau lliw gwahanol a dewis dau lwybr. Dylent farcio'r lleoedd ble mae'r ci tywys yn stopio gyda 'X'.

Syniad am Weithgaredd 3

Robotiaid Rhaglenadwy

Gweithgaredd Pâr:

Os oes gennych robotiaid y gellir eu rhaglennu, un ai rhai llawr neu ar y ddesg. Estynnwch syniad y cynllun a gofyn i'r plant weithio â phartner i ddatblygu llwybr syml un ai ar y llawr neu ar y desgiau i arwain y 'ci tywys' robotig o gwmpas. Yn ogystal ag atgyfnerthu dysgu am rôl ci tywys, bydd hefyd yn datblygu iaith gyfeiriadol a rheoli yn ogystal â sgiliau rhaglennu syml.

Crynswth

Proffil Ci Tywys

Adeiladwch broffil dosbarth gyda'ch gilydd o beth mae ci tywys yn ei wneud. Gofynnwch i unigolion/gwirfoddolwyr i feddwl am y ffeithiau neu'r rhinweddau a'u hysgrifennu i lawr.

Os ydych wedi defnyddio robot llawr neu robot desg, trafodwch sut wnaeth y gweithgaredd weithio, beth aeth yn dda a beth oedd yn fwy anodd.

Gweithgaredd Cartref

Atgoffa

Atgoffwch bawb o rôl y ci tywys. Trafodwch y mathau o rinweddau y dylai ci tywys feddu arnynt, rhowch resymau pam eu bod nhw mor bwysig.